**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17eg Hydref 2011**

## Y Diweddaraf am y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau ar y Môr (MIRG)

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r diweddaraf i'r Awdurdod am y datblygiadau mewn perthynas â'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau ar y Môr (MIRG), ac yn ceisio cydnabyddiaeth i'r ffaith fod Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn tynnu allan o'r ddarpariaeth.

## Cefndir

2 Sefydlwyd y Grŵp i gynorthwyo Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau gyda digwyddiadau ar y môr oedd yn ymwneud â thân, peryglon cemegol a damweiniau diwydiannol. Roedd pymtheg o blith y tri deg naw o Wasanaethau Tân ac Achub arfordirol wedi ymrwymo tua 650 o ddiffoddwyr tân i gefnogi'r Grŵp. Yng Nghymru, roedd hyn yn cynnwys Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru.

3 Mae'r Grŵp yn darparu gwasanaeth sicr i Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, a hwnnw'n cael ei reoli trwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Gwasanaethau Tân ac Achub a'r Asiantaeth. Mae'r costau i'r Asiantaeth yn ymwneud ag ategu hyfforddiant ac offer y GTA, a darparu rheolwr cyswllt. Mae'r gost i'r Asiantaeth ychydig dros £550k y flwyddyn.

4 Bydd yr Aelodau'n cofio adroddiad ar 21ain Mawrth eleni a oedd yn ceisio cefnogaeth yr Awdurdod i gynnal darpariaeth y Grŵp yng Ngogledd Cymru yn y tymor byr. Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynodd yr Aelodau barhau i gefnogi'r Grŵp o'r 1af Ebrill 2011 ymlaen gan ddefnyddio arian o flwyddyn ariannol 2010/11 wedi ei gapio ar £11,000, hyd oni fyddai darlun cliriach o'r ymrwymiad yn y dyfodol yn dod i'r amlwg.

## Gwybodaeth

5 Darparodd y Prif Swyddog Tân dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Dethol Cludiant a gyfarfu ym mis Ebrill eleni. Ynglŷn â'r Grŵp, daeth y pwyllgor i'r casgliad:-

*Er nad yw'r Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau ar y Môr ond wedi ymwneud â saith digwyddiad, bu ei ymyriad yn bwysig. Mae ein tystiolaeth yn awgrymu nad yw sgiliau criwiau llongau, er bod ganddynt rywfaint, yn hafal i arbenigedd y Grŵp. Mae yr un mor eglur y bydd y Grŵp yn dod i ben heb gyllid Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau. Mae gweithrediadau'r Grŵp yn fater o gydnerthedd cenedlaethol, ac ni ddylai'r cyfrifoldeb am eu cyllido gael ei adael i'r trethdalwr lleol. Rydym yn bryderus fod y Llywodraeth, fel gyda'r Llongau Halio ar gyfer Argyfyngau, wedi gwneud penderfyniad sydd eto'n cael ei yrru gan y cymhelliad i leihau gwariant sy'n mynd yn groes i asesiad risg. Rydym yn argymell bod y Llywodraeth yn mabwysiadu model wedi ei resymoli ar gyfer y Grŵp, sydd wedi addasu'n well i'r risg ac yn fwy cost-effeithiol na'r trefniant presennol."*

6 Ar 16eg Medi 2011, derbyniodd y Prif Swyddog Tân lythyr gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau'r Môr yn yr Asiantaeth, oedd yn dweud bod y Gweinidog Morgludiant wedi rhoi gwybod i'r Senedd na fyddai'r Asiantaeth mwyach yn gallu rhoi cefnogaeth ariannol i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n darparu galluogrwydd y Grŵp, ac y byddai'r Asiantaeth yn tynnu allan o'r cytundeb ar 14eg Rhagfyr 2011.

7 Roedd y llythyr hefyd yn gofyn a fyddai'r GTA yn dymuno trafod trosglwyddo offer a ddarparwyd gan yr Asiantaeth petai'r

Gwasanaeth yn dymuno parhau i ddarparu'r gallu i ymladd tanau ar y môr.

8 Mae Gogledd Cymru, fel Gwasanaethau Tân ac Achub eraill y Grŵp, wedi bod yn cydweithio trwy Gymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA) ynglŷn â'r mater, a chynhaliwyd cyfarfod o holl Wasanaethau Tân ac Achub y Grŵp yn Swydd Gaint ar 4ydd Hydref.

9 Cadarnhawyd yn y cyfnod na fydd y Gweinidog yn ailystyried safbwynt y Asiantaeth. Cadarnhawyd hefyd nad oedd unrhyw gynlluniau manwl ar gyfer darpariaeth ar ôl 14eg Rhagfyr. Mae trafodaethau a symbylwyd gan Gymdeithas CFOA yn parhau, ond nid oes unrhyw gynlluniau ar gyfer parhau â'r trefniadau na'r cyllid wedi eu gwneud. Daeth y cyfarfod i'r casgliad bod angen i'r Gwasanaethau Tân ac Achub ddatgan eu bwriad i'w cyllido eu hunain, yn y cyfamser ac o bosib yn y tymor hirach. O blith yr 13 o Wasanaethau Tân ac Achub (mae 2 wedi tynnu allan) sy'n cael eu datgan fel rhai'r Grŵp ar hyn o bryd, mae 4 wedi cadarnhau eu bwriad i'w cyllido eu hunain yn ddibynnol ar gymeradwyaeth eu Hawdurdodau Tân ac Achub. Amcangyfrifwyd mai'r costau ar gyfer cynnal y trefniadau presennol, ac eithrio'r offer newydd fydd eu hangen yn 2013, yw £45,000 y flwyddyn i bob Gwasanaeth Tân ac Achub. Bydd y gost yma'n cynyddu wrth i nifer y Gwasanaethau sy'n cymryd rhan mewn trefniadau o'r fath fynd i lawr.

10 Yn y cyfamser, ni ddefnyddiwyd dim o'r £11,000 dynodedig gan yr Awdurdod i fod ar gael i gynnal y ddarpariaeth, a chaiff hwn ei ddychwelyd i'r Awdurdod.

## Argymhelliad

11 Argymhellir bod yr Aelodau'n:
- (i) nodi cynnwys yr adroddiad.
- (ii) cydnabod bod Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn tynnu allan o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth; ac felly'n
- (iii) tynnu allan o ddarpariaeth y Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau ar y Môr.